

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr Ôl-raddedig) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr Ôl-raddedig) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
30 Mawrth 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr Ôl-raddedig) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022 (“Rheoliadau 2022”) yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio'r rheoliadau hyn er mwyn:

- cynyddu swm y cymorth ôl-raddedig;
- tynnu'r cyfeiriadau at y 'cyfnod gras' mewn perthynas â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE;
- gwneud unigolion a gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu i aros fel dinesydd perthnasol o Affganistan ac aelodau o'u teuluoedd o dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid a'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfirwyr;
- gwneud myfirwyr sy'n cael bwrsari gwaith cymdeithasol yn gymwys ar gyfer cymorth at radd Meistr ôl-raddedig, ar ffurf benthyciad; a
- gwneud myfirwyr penodol yn anghymwys ar gyfer benthyciad gradd Ddoethurol pan fônt yn cael bwrsari gan Lywodraeth Cymru.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Nid oes materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2022 o dan adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a (b) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

3.2 Mae adran 22 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfirwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach neu uwch a ragnodir gan y rheoliadau hynny neu odanynt. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymysg pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

3.3 Roedd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd

Gwladol o dan adran 22(1)(a) a 22(2)(b) o Ddeddf 1998. Roedd adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) o Ddeddf 1998 i fod i gael eu harfer gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 Act i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).

3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

3.6 Bob blwyddyn, mae nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 yn cael eu dirprwyo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrywyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.7 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau er mwyn rhoi sail i'r system o gymorth ariannol ar gyfer myfyrywyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a myfyrywyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n astudio cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y Deyrnas Unedig.

4.2 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio rheoliadau cymorth i fyfyrywyr sydd eisoes yn bodoli fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.3 – 4.11.

Cynnydd blynyddol mewn cymorth

4.3 Yn unol â pholisi sydd wedi'i sefydlu, mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrywyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 yn cael eu diwygio er mwyn cynyddu swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyrywyr graddau Meistr sy'n dechrau cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2022 yn ôl y raddfa chwyddiant ragamcanol, drwy gynyddu swm y benthyciad. Ni fydd cymorth grant yn cynyddu. Bydd cyfanswm y cymorth yn cynyddu o £18,025 i £18,430 y cwrs.

4.4 Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 yn cael eu diwygio er mwyn cynyddu swm y cymorth ar gyfer myfyrywyr doethurol sy'n dechrau cyrsiau ar neu ar ôl 1 Awst 2022 yn ôl y raddfa chwyddiant ragamcanol. Benthyciad yn unig yw'r cymorth doethurol, sy'n cynyddu o £27,265 i £27,880 y cwrs.

Tynnu'r darpariaethau mewn perthynas â'r "cyfnod gras" yn y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

- 4.5 Daeth y 'dyddiad cau ar gyfer gwneud cais' a'r 'cyfnod gras' sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i ben ar 30 Mehefin 2021. Darperir ar gyfer y rhain yn Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â'r UE) 2020. Roedd pobl yn gallu gwneud cais am ganiatâd i ddod i mewn neu aros tan y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais, sef 30 Mehefin 2021. Roedd hawliau penodol a roddwyd gan Reoliadau Mewnfudo (Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016 hefyd yn cael eu cadw tan y dyddiad hwnnw hefyd, er gwaethaf dirymu'r rheoliadau hynny – sef y 'cyfnod gras'. At hynny, pan fo'r cyfnod gras wedi dod i ben ac mae'r person wedi gwneud cais dilys nad oes penderfyniad wedi'i wneud arno eto, caiff y cyfnod hwn ei estyn hyd nes bod penderfyniad yn cael ei wneud – y 'cyfnod perthnasol'.
- 4.6 Gwnaed darpariaeth yn Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 i sicrhau nad oedd y rhai hynny a oedd yn gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr, ac a oedd wedi gwneud cais am ganiatâd i ddod i fewn neu i aros o dan y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, yn cael eu gwneud yn anghymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn anfwriadol. Mae diwygiad angenrheidiol yn cael ei wneud i'r rheoliadau er mwyn dileu cyfeiriadau at y cyfnod gras (yn unig).

Gwladolion Afghanistan

- 4.7 Ar 29 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd yr Ysgrifenydd Amddiffyn a'r Ysgrifenydd Cartref y 'Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid' (ARAP). Mae'r cynllun yn cynnig adleoli a chymorth arall i staff presennol a blaenorol a gyflogir yn lleol yn Affganistan er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa sy'n newid o hyd yn Afghanistan. Lanswyd y cynllun ARAP ar 1 Ebrill 2021 a bydd yn parhau ar waith am gyfnod amhenodol.
- 4.8 Yn ogystal, ym mis Awst 2021 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fanylion cynllun newydd, sef Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan' (ACRS). Mae'r ACRS wedi'i sefydlu er mwyn amddiffyn dinasyddion Affganistan sydd wedi cyfrannu at y gymdeithas sifil neu sy'n wynebu risg benodol, er enghraifft oherwydd eu rôl yn dadlau dros ddemocratiaeth a hawliau dynol, neu oherwydd eu rhyw, rhywioldeb neu grefydd.
- 4.9 Caiff y rheoliadau ôl-raddedig eu diwygio er mwyn gwneud darpariaeth ar gyfer Affganiaid sydd wedi eu hadleoli i'r Deyrnas Unedig o dan ARAP a ACRS i sicrhau eu bod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr yn unol â chategorïau eraill sy'n seiliedig ar amddiffyn ac i dalu ffioedd cartref a bod y cap ar ffioedd dysgu hefyd yn berthnasol iddynt. Caiff hyn ei estyn i priod, partner sifil neu unrhyw blant dibynnol o dan 18 oed.

Myfyrwyr ôl-raddedig ym maes gwaith cymdeithasol

4.10 O dan y rheoliadau, nid yw myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd Meistr ôl-raddedig ac yn cael bwrsari Gofal Cymdeithasol Cymru yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. Caiff diwygiad ei wneud i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 er mwyn gwneud y myfyrwyr hyn yn gymwys i wneud cais am fenthyciad atodol drwy'r pecyn cymorth i fyfyrwyr gradd Meistr. Bydd hyn yn gymwys i fyfyrwyr newydd sy'n dechrau ar eu cwrs ar 1 Awst 2022 neu ar ôl hynny.

Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd

4.11 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i Brifysgol Caerdydd i gyllido cwrs doethurol mewn Seicoleg Addysg. Mae bwrsari gan Lywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr hefyd. Mae angen diwygio'r Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 er mwyn gwneud myfyrwyr newydd yn anghymwys ar gyfer benthyciad doethurol pan fônt yn cael bwrsari, i osgoi cyllido dwbl.

5. Ymgynghoriad

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol

Cynhaliwyd Aseiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Rheoliadau 2022.

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

6.1 Os na chaiff Rheoliadau 2022 eu gwneud, bydd y goblygiadau fel a ganlyn:

- bydd gwerth y cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig yn lleihau mewn termau real, gan adael myfyrwyr i ysgwyddo'r gostyngiad hwn;
- bydd diffyg cyfatebiaeth ar gyfer cymorth i fyfyrwyr rhwng gwladolion Affganistan ac eraill sydd â mathau eraill o ganiatâd i aros yn y DU sy'n seiliedig ar amddiffyn a chyda'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr israddedig;
- bydd myfyrwyr gradd Meistr ôl-raddedig ym maes gwaith cymdeithasol sy'n dechrau cyrsiau o flwyddyn academiaidd 2022/23 yn parhau'n anghymwys ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr; a
- mae risg o gyllido dwbl i fyfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cwrs Doethurol mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd, sydd yn cael bwrsari.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

6.2 Mae gwneud y rheoliadau hyn yn sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

7.1 Byddai gadael y rheoliadau presennol yn eu lle yn golygu na fydd costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr, er y byddai'r risg o gyllido dwbl mewn perthynas â myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cwrs doethurol mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yn parhau. Byddai myfyrwyr yn ysgwyddo'r costau o ganlyniad i'r gostyngiad real yng ngwerth eu cymorth i fyfyrwyr.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

7.2 Trwy wneud Rheoliadau 2022, mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod y system cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru yn cael ei ategu gan fframwaith cyfreithiol priodol a bod polisi yn cael ei weithredu'n effeithiol. Bydd myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn manteisio o gynnal gwerth gwirioneddol eu cymorth. Bydd estyn y cymhwysra ar gyfer cymorth, fel y cofnodir uchod, yn sicrhau bod manteision addysg uwch yn cael eu hestyn yn briodol, a bod grwpiau'n cael eu trin yn gyfartal. Mae manteision addysg uwch i'r unigolyn, yr economi a chymdeithas wedi hen ennill eu plwyf.

7.3 Mae'r ymgodiadau rheolaidd a gymhwysir i gyfraddau cymorth i fyfyrwyr bob blwyddyn yn cadw gwerth real y cymorth. Mae'r diwygiadau i'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig yn cynyddu cost cymorth i fyfyrwyr o £1.63m.

7.4 O 1 Medi 2021, rhoddwyd caniatâd i 8,000 o unigolion o dan ARAP. Nid oes dadansoddiad o'r niferoedd a adleoliwyd i Gymru ac o'r herwydd nid yw'n hysbys faint o wladolion Affganistan y mae disgwyl iddynt wneud cais am gymorth i fyfyrwyr yn 2022/23. Ni ellir amcangyfrif y gost yn gywir ond mae'n debygol o fod yn gymharol fach.

7.5 Nodir nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf o Gymru sy'n astudio gradd Meistr ôl-raddedig ym maes Gwaith Cymdeithasol mewn darparwr addysg uwch yng Nghymru yn y tabl isod

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Nifer y myfyrwyr blwyddyn gyntaf	65	55	60	70	70

Ffynhonnell: HESA drwy Lywodraeth Cymru

Nifer y myfyrwyr a gyfrifir gan ddefnyddio cyfwerth â pherson llawn (FPE). Pe bai unigolyn yn astudio gradd Meistr ar y cyd a 50% ohono yn waith cymdeithasol, byddai'n cael ei gyfrif yn y tabl hwn fel 0.5.

Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

Mae pob rhif yn seiliedig ar fyfyrwyr sydd:

1. yn fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru
2. wedi'i gyfrif o fewn y boblogaeth cofrestru safonol ar gyfer AU
3. yn astudio mewn darparwr Addysg Uwch yng Nghymru neu yn y Brifysgol Agored
4. yn fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn unig
5. yn fyfyrwyr ôl-raddedig yn unig

Mae graddau Meistr wedi'u diffinio fel cyrsiau gydag un o'r nodau canlynol:

- Gradd Meistr sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gradd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil
- Gradd Meistr a geir fel arfer drwy gyfuniad o waith cwrs a thesis/traethawd hir, nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gradd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil
- Gradd Meistr a Addysgir wedi'i chynllunio'n benodol fel hyfforddiant mewn dulliau ymchwil ac a fwriedir fel paratoad ar gyfer gradd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil
- Gradd Meistr mewn Addysgu a Dysgu
- Gradd Meistr a addysgir ar ôl-brofiad
- Gradd Meistr mewn Gweinyddu Busnes (MBA)

Ni ellir cymharu niferoedd y myfyrwyr o 2019/2020 yn uniongyrchol â niferoedd y myfyrwyr ar gyfer 2018/2019 a chyn hynny. Mae hyn oherwydd y newid o godau pwnc JACS i godau pwnc HECoS yn y data HESA.

7.6 Cofnodir y gost gysylltiedig o ddarparu benthyciad i fyfyrwyr ôl-raddedig ym maes Gwaith Cymdeithasol sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng y pecyn ôl-raddedig confensiynol a'u bwrsari Gofal Cymdeithasol Cymru yn y tabl isod.

Amcangyfrif o gostau Cyllid Myfyrwyr fel ategolyn i fwrsari Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ôl blwyddyn ariannol

	2022-23	2023-24	2023-24	2025-26
Benthyciad Cyllid Myfyrwyr	£99,942	£261,762	£350,113	£397,436
Benthyciad @Cyllidebu a Chyfrifyddu (dileu benthyciad)	£0	£0	£0	£0

Ffynhonnell: dadansoddiad mewnol yr Is-adran AU, Llywodraeth Cymru

1. Costau ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig sy'n hanu o Gymru, mewn SABau neu'r Brifysgol Agored, sy'n dechrau yn 2022/23
2. Rhagwelir y bydd nifer y myfyrwyr yn cynyddu o 70 yn 2020/21, hyd at y nifer uchaf o fwrsariau sydd ar gael (83)

7.7 Bydd y risg o gyllido dwbl mewn perthynas â'r myfyrwyr hynny sy'n astudio ar gyfer cwrs doethurol mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd yn cael ei ddileu. Mae nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio ar gyfer cwrs doethurol mewn Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i nodi yn y tabl isod.

	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21
Nifer y myfyrwyr	25	20	25	25	25

Ffynhonnell: HESA drwy Lywodraeth Cymru

Nodiadau

Cyfrifir nifer y myfyrwyr gan ddefnyddio cyfwerth â pherson llawn (FPE).

Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

Mae pob rhif yn seiliedig ar fyfyrwyr sydd:

1. yn fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru
2. wedi'u cyfrif o fewn y boblogaeth cofrestru safonol ar gyfer AU
3. yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd

Mae cyrsiau doethurol wedi'u diffinio fel cyrsiau gydag un o'r nodau canlynol:

- *Gradd doethuriaeth sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gradd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil*
- *Credyd darparwr ar lefel D a all gyfrif tuag at radd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil*
- *Gradd doethuriaeth nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gradd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil*
- *Llwybr PhD newydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer gradd uwch sy'n seiliedig ar ymchwil*

Ni ellir cymharu niferoedd y myfyrwyr o 2019/2020 yn uniongyrchol â niferoedd y myfyrwyr ar gyfer 2018/2019 a chyn hynny. Mae hyn oherwydd y newid o godau pwnc JACS i godau pwnc HECoS yn y data HESA.

8. Asesu'r gystadleuaeth

- 8.1 Nid yw gwneud Rheoliadau 2022 yn cael effaith ar ba mor gystadleuol yw busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

- 9.1 Mae'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac yn destun adolygiad manwl, parhaus gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflenwi o ran gweithredu'r rheoliadau'n ymarferol.